Ffocws ar Gymraeg

CYFRES YR HAF 2018

Mae TGAU Cymraeg Iaith yn gymhwyster llinol nad yw'n haenog. Mae hyn yn golygu bod angen sefyll yr holl arholiadau ar ddiwedd y cwrs a bydd pob myfyriwr yn sefyll yr un papur arholiad, beth bynnag yw'r radd y mae'n anelu ati.

Mae TGAU Llenyddiaeth Gymraeg yn gymhwyster haenog, unedol. Mae hyn yn golygu y gall myfyrwyr sefyll arholiadau ar gyfer unedau unigol yn ystod y cwrs a chofrestru i sefyll naill ai bapur haen sylfaen neu bapur haen uwch, gan ddibynnu ar y radd y maent yn anelu ati.

Pwy sy'n sefyll arholiadau'r cymwysterau hyn yr haf hwn?

Myfyrwyr sydd wedi cael addysg cyfrwng Cymraeg nes iddynt gyrraedd 14 oed sy'n sefyll arholiadau'r cymwysterau hyn. Mae canran y myfyrwyr sydd wedi cael eu cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith yr haf hwn wedi gostwng 24% o gymharu â haf 2017. Y newidiadau i fesurau perfformiad ysgolion yw'r rheswm dros y gostyngiad hwn. O haf 2019, bydd y canlyniad gorau o gynnig cyntaf myfyriwr ar gyfer naill ai TGAU Cymraeg Iaith neu TGAU Llenyddiaeth Gymraeg yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad ysgolion. Mae nifer y myfyrwyr Blwyddyn 11 sydd wedi cael eu cofrestru wedi lleihau hefyd gan y bydd rhai ohonynt wedi sefyll yr arholiadau yn ystod haf 2017 (fel myfyrwyr Blwyddyn 10) ac ym mis Tachwedd 2017 a dim ond cyfran fydd yn dychwelyd yr haf hwn gyda'r gobaith o wella eu graddau. Fodd bynnag, bydd llawer o fyfyrwyr yn sefyll arholiadau'r pwnc am y tro cyntaf yr haf hwn.

Ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Gymraeg, mae'r data cofrestru ar gyfer yr haf hwn yn sefydlog o gymharu â haf 2017.

Gall ysgolion benderfynu pryd i gofrestru myfyrwyr ar gyfer arholiadau, ac nid oes un dull penodol sy'n gweithio i bob myfyriwr. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod myfyrwyr wedi astudio cynnwys y cymhwyster er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddynt ennill eu gradd orau posibl.

Beth mae hyn yn ei olygu i'r canlyniadau yr haf hwn?

Mae'r patrymau cofrestru newidiol ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith yn debygol o effeithio ar y canlyniadau yr haf hwn. Mae hynny'n golygu y bydd angen dehongli a chymharu canlyniadau cyffredinol yr haf yn ofalus. Bydd ein cymariaethau yn seiliedig ar ganlyniadau gorau myfyrwyr sy'n gorffen Blwyddyn 11 yr haf hwn.

CYMWYSTERAU CYMRU
QUALIFICATIONS WALES

Rhagor o wybodaeth: www.cymwysteraucymru.org E: ymholiadau@cymwysteraucymru.org
T: 01633 373 222 @cymwysterau_cym